



**ADRODDIAD GAN Y
PWYLLGOR DEDDFAU**

**LEGISLATION COMMITTEE
REPORT**

Rheoliadau Adnabod Gwartheg (Cymru) 2007

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn ail-lunio i'r graddau y maent yn gymwys o ran Cymru ddarpariaethau—

- (a) Gorchymyn Anifeiliaid Buchol (Cofnodion, Adnabod a Symud) 1995;
- (b) Rheoliadau Adnabod Gwartheg 1998;
- (c) Rheoliadau Cronfa Ddata Gwartheg 1998;
- (d) Rheoliadau Gwartheg (Adnabod Anifeiliaid Hyn) (Cymru) 2000

ynghyd â'r diwygiadau i'r offerynnau hynny. Nodir y prif newidiadau yn y Nodyn Esboniadol.

Rheol Sefydlog 11.7

Nodwyd y pwyntiau canlynol i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Yn nhestun Saesneg rheoliad 3(2), ymddengys bod yr ymdrech i osgoi defnyddio iaith ryw-benodol wedi arwain at ychwanegu'r y geiriau "or her" ar ôl "he". Fodd bynnag, gan mai cyfeiriad at y Cynulliad Cenedlaethol ydyw, dylid defnyddio'r gair "it" yn lle "he". [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Yn yr un modd, dylid defnyddio'r gair "it" yn lle "he" ym mharagraff 1(1)(b) o Atodlen 1. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Ym mharagraff 10(1) o'r testun Saesneg, mae croesgyfeiriad anghywir at baragraff 6. Mae'n gywir yn y testun Cymraeg fel croesgyfeiriad at baragraff 7. [Rheol Sefydlog 11.7(v) a (vi)]

Ym mharagraff 2(1) o Atodlen 4, mae enghraifft o iaith ryw-benodol ("his representative") mewn perthynas â'r milfeddyg swyddogol. [Rheol Sefydlog 11.7(vii)]

Mae Paragraff 2 o Atodlen 5 yn cyfeirio at at Erthygl 7(3) heb ymhelaethu ar hynny. Dylai nodi "o Reoliad (EC) Rhif 1760/2000". Yn yr un modd, dylai'r cyfeiriad at 911/2004 yn y paragraff blaenorol nodi mai Rheoliad ydyw. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae testun Saesneg rheoliad 10(1)(c) yn cyfeirio at "minimum administrative sanctions", tra bo'r Gymraeg yn cyfeirio at "nifer lleiaf posibl o sancsiynau". Fodd bynnag, wrth ystyried Rheoliad y Comisiwn y cyfeirir ato, dengys mai'r hyn y mae'n ei wneud yw pennu'r lefel isaf o sancsiynau a ganiateir, a chaiff Aelod-wladwriaethau ddatblygu sancsiynau eraill ar ben hynny os yw difrifoldeb y toriad yn cyfiawnhau gwneud hynny. Mae'r ymadrodd Saesneg yn deillio o'r Rheoliad, a byddai'r ymadrodd "y lefel isaf o sancsiynau" yn adlewyrchu'r ystyr yn well yn y testun Cymraeg. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Yn rheoliad 14(1)(b) defnyddir yr ymadrodd "cymryd arno" i gyfateb i "purporting". Fel yr esboniwyd mewn adroddiadau blaenorol, mae'r ymadrodd "cymryd arno" yn awgrymu bod yr hawliad yn un ffug, tra bod "purporting" yn golygu gwneud honiad, boed yr honiad hwnnw'n wir neu gau, felly dylid defnyddio'r term "honni" yn lle'r term "cymryd arno". [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Yn nhestun Cymraeg y Rheoliad y CE y cyfeirir ato ym mharagraff 3(1) o Atodlen 1, mae'r rhif "1760/2000" ar goll a dylid ei fewnosod. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae paragraff 6(1) o Atodlen 1 yn ganiataol. Felly, dylai'r testun Cymraeg ddefnyddio "caiff" yn hytrach na "gall". [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mân wallau drafftio neu deipograffyddol yw'r rhain sy'n addas i'w cywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

6 Mawrth 2007